NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Elafibranor ar gyfer colangitis bustlog sylfaenol wedi'i drin yn flaenorol

14 Tachwedd 2024

Mae elafibranor (Iqirvo) ar gael ar y GIG. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer colangitis bustlog sylfaenol mewn oedolion, pan gaiff ei defnyddio:

- gydag asid ursodeoxycholic (UDCA), os na fydd y cyflwr wedi ymateb digon i UDCA, neu
- ar ei ben ei hun, os na ellir goddef UDCA.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os byddwch yn dymuno. Gweler ein tudalen we ar wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gael y driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

### Gwybodaeth a chymorth

Gall tudalen we y GIG ar colangitis bustlog sylfaenol fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Sefydliad Colangitis Fustlog Cychwynnol, 0131 556 6811
- Ymddiriedolaeth Afu Prydain, 0800 652 7330
- Liver4Life, 0800 074 3494

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm Healthwatch lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

© **NICE 2026**. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

ISBN: 978-1-4731-9480-9